# Gwahaniaethu Ieithyddol yn erbyn ysgolion cyfrwng Cymraeg! Arwyddwch y ddeiseb i atal Cymwysterau Cymru rhag parhau i adael hyn i ddigwydd!



Chris Evans, Pennaeth Seicoleg Ysgol Morgan Llwyd Wrecsam


Rhoddwyd ganiatad i Fyrddau Arholi Saesneg fel AQA, OCR a Pearson i gynnig pynciau yn Nghymru o Fedi 2017 gan Gymwysterau Cymru. Mae rhain yn bynciau nad ydynt ar gael trwy CBAC e.e. Seicoleg TGAU ac Economeg TGAU. Yn anffodus, ac yn anghrediniol, ni roddwyd unrhyw bwysau gwirioneddol arnynt i gynnig papurau yn y Gymraeg! Ymateb Cymwysterau Cymru i gwynion am hyn yw dweud y byddai'r Byrddau Saesneg yn gwrthod cynnig pynciau yng Nghymru yn gyfan gwbl pe tase nhw'n cael eu gorfodi i gynnig opsiwn Cymraeg.



***"Er mwyn annog cyrff dyfarnu i gynnig yr ystod ehangaf bosibl o bynciau i ddysgwyr yng Nghymru, nid ydym yn mynnu eu bod yn cael eu cynnig yn Gymraeg"*** - Philip Blaker, Prif Swyddog Gweithredol, Cymwysterau Cymru     Cylchlythyr CC, Rhagfyr 2016.

***'..yr ystod ehangaf bosibl o bynciau i ddysgwyr Cymru'***....heblaw eich bod yn dilyn addysg Gymraeg! Yn hytrach na sefyll yn gadarn dros yr iaith, a chreu cystadleuaeth rhwng y Byrddau Saesneg am yr hawl i gynnig eu cyrsiau yng Nghymru, mae nhw'n gadael iddyn nhw drin canolfannau Cymru yn union fel rhai Lloegr.

Canlyniad hyn yw y bydd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dioddef llai o ddewis o ran pynciau nag ysgolion cyfrwng Saesneg. Rwyf wedi dysgu Seicoleg TGAU yn fy ysgol ers 2009, ond ym mis Medi, nid oes cwrs ar gael i mi ddysgu drwy'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae gan yr ysgol cyfrwng Saesneg ychydig filltiroedd i ffwrdd ddewis rhwng tri bwrdd, ac yn cychwyn cwrs Seicoleg TGAU trwy AQA.




Mae pedwar canolfan Gymraeg arall yn yr un sefyllfa, a byddai dros 100 o ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg yn dilyn y cwrs tasau o ar gael drwy'r Gymraeg. Mae o leiaf tri arholwr Seicoleg profiadol wedi cynnig gweithio i unrhyw fwrdd Saesneg a fyddai'n cynnig papur Cymraeg. Trwy arwyddo'r ddeiseb, sydd ar wefan y Cynulliad, byddwch yn fy helpu i roi pwysau ar Gymwysterau Cymru, a'r Llywodraeth, i sicrhau cydraddoldeb o ran dewis cwricwlwm i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg Cymru.

Diolch, Chris Evans